

YMWROLI DAN FAICH ERLEDIGAETH

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch bawb i weld na ddylem ofni erledigaeth ond y dylem ei ddisgwyl a bod yn barod i ymdrin ag ef. Dylai pob un ymglyfnerthu i ddyfalbarhau. Magwch hyder y bydd Jehofah yn ein helpu ni i oresgyn erledigaeth. 'Nawr yw'r amser i nesáu at Dduw drwy fanteisio'n llawn ar ei ddarpariaethau

“EU HERLID A GAIFF PAWB . . . YNG NGRIST IESU” (5 mun.)

Pam trafod pwnc ymddangosiadol annifyr erlid 'nawr?

Ni wneir oherwydd diddordeb afiach mewn dioddefaint na cheisio dychryn unrhyw un i weithredu mewn ffordd arbennig

Bydd cael golygwedd gytbwys yn ein helpu i oresgyn ofn erlid

Dengys yr Ysgrhythurau y caiff pob Cristion ei erlid (Darllen 2 Timotheus 3:12)

Er hynny, 'ydych chi'n bersonol wedi profi erlid o'r fath?

'Rydym 'nawr yn niwedd “y dyddiau diwethaf” rhagfynegedig (2Tim 3:1-5)

'Ydych chi'n meddwl y daw'r “dyddiau diwethaf” i ben heb i chi brofi gwireddu adnod 12?

Fel Paul, dylai gweision Duw heddiw ddisgwyl erledigaeth (adnod 11)

Medrwech ofyn: 'Pa fath o erledigaeth allwn i ei wynebu, a pham?'

Dylem ystyried ein sefyllfa ein hunain o ran erledigaeth

Yn union fel y bu inni brofi bendithion fel Cristionogion, rhaid inni hefyd ddisgwyl erledigaeth (Mc 10:29, 30)

Dylai fod ar bawb eisiau dirnad yr hyn all ddigwydd a sut medrwn ymwroli dan faich erledigaeth

AMRYWIOL FFURFIAU ERLEDIGAETH (10 mun.)

Mae i erledigaeth amrywiol ffurfiau, fe all fod yn gorfforol, ond nid bob amser (*it-2* 609; *w82* 4/15 22-3)

Tafodi, gwawd, a sen

O bosib', gan deulu unigolyn (Mth 10:34-36)

Yn aml yn anodd ei oddef, gan ei fod yn dod oddi wrth anwyliaid

Enillwn fuddugoliaeth nid yn unig drwy benderfyniad i aros yn ffyddlon a theyrngar i Dduw ond hefyd drwy beidio â thalu'r pwyth yn ôl am driniaeth anghyfiawn (1Pedr 2:21, 23)

Yn hytrach na gwylltio, disgwylwch yn amyneddgar wrth Jehofah, a pharhau i geisio 'trechu drygioni â daioni' (Rhuf 12:17-21)

'Roedd yr apostol Paul yn fodlon goddef sarhad pe deuai hyn â chlod i enw Duw (2Cor 12:10; *w85* 11/15 12)

Pwysau economaidd (Dat 13:16, 17; *re* 197)

Gall gwaharddiadau llywodraeth olygu colli gwaith, cartref ac eiddo

'Dydym ni ddim am fod fel rhai yng nghynulleidfa Corinth a roddai bwyslais ar gyfoeth a safle (1Cor 4:8)

Yn llwyr gyferbynnu â hyn, dangosodd Paul mor barod ydoedd i oddef gwaradwydd mawr a dioddef angen corfforol, yn ôl yr amgylchiadau a ddatblygai wrth iddo wasanaethu Duw (1Cor 4:9-13)

Pe gorfodai erledigaeth ni o swydd dda i waith mwy israddol, gall ffydd ein galluogi i ddygymod ac ymateb yn gadarnhaol (Heb 10:32-34)

Dioddefaint corfforol—gan gynnwys niwed i'r corff, carcharu, hyd yn oed farwolaeth (Mth 24:9; Lc 21:12; 2Cor 11:24, 25)

'Ddylem ni ddim ein poenydio'n hunain wrth ddychmygu poenau arteithiol (*w74* 219)

Yn hytrach, dylai gwybod y gall dioddefaint ddod ein hysgogi i iawn ystyried erledigaeth a pharatoi ar ei gyfer, beth bynnag fo'i ffurf

Gall erledigaeth ein drysu dros dro, ond fe rydd Jehofah “ddihangfa” i'w weision ffyddlon bob amser

Nid yn gymaint i osgoi'r prawf ond i'n “galluogi i ymgynnal dano” (1Cor 10:13; 2Cor 4:8-10; *w90* 7/15 19; *w83* 5/1 20; *w76* 473-4)

Er ein bod yn wan ynom ein hunain, bydd ffydd yn ein galluogi i oresgyn unrhyw erlid neu anhawster

Bydd ein ffydd bob amser yn fuddugol (1In 5:4)

ENGHREIFFTIAU HEN A MODERN O YMWROLI DAN FAICH ERLEDIGAETH (15 mun.)

Pwysig cofio y gallwn lwyddo yn wyneb unrhyw erlid

Mae gennym sail dros fod yn ddewr a hyderus—nid ynom ein hunain ond yng nghariad Duw (Rhuf 8:35-39)

Mae esiampl tystion o'r cyfnod cyn Crist yn profi ei bod yn bosib' ymwroli dan faich erledigaeth (Heb 11:35-38)

Goddefodd Cristionogion y ganrif gyntaf lawer o erlid a chadw'n ffyddlon (Act 8:1-3; 9:1, 2)

Nid pobl uwcharwrol oedd rhai buddugol y gorffennol ond bodau dynol bregus, cyffredin yn union fel ni

Os gallent hwy oddef, mi fedrwn ninnau

Yn y cyfnod modern mae llawer wedi ymwroli dan faich erledigaeth (Rhowch rai enghreifftiau, o rai lleol os oes modd. Os yw'n bosib', defnyddiwch: [1] golli gwaith neu safle oherwydd bod yn Dyst; [2] erledigaeth estynedig

drwy wawd, difenwi, fel sy'n digwydd yn aml mewn teulu rhanedig; [3] camdrin corfforol. Osgowch ogoneddu'r unigolyn. Ysgogwch hyder y gallwn ninnau oddef yn debyg. Cynhwyswch sylwadau ynglŷn â'r agwedd a gynorthwyodd y rhai a erlidid i ddygymod, a nodwch unrhyw bethau ymarferol a wnaethant a fyddai'n cynorthwyo eraill i oddef amgylchiadau cyffelyb. Os oes angen, gellir defnyddio'r canlynol: *w89 3/1 18; w89 6/15 27; w88 2/15 17; w86 6/1 28-9; w82 4/15 16, 27*)

PARATOWCH 'NAWR I YMWROLI DAN FAICH ERLEDIGAETH (15 mun.)

Argraffwch yn eich meddwl pam eich bod yn cael eich erlid

'Ddylai camdrin ddim bod oherwydd ymddygiad amheus ar ein rhan ni (1Pedr 2:19, 20; 4:15, 16; *it-2 610*)

Satan y Diafol yw gwir achoswr erledigaeth (*w82 4/15 23*)

Mae wedi codi dadl-destunau o bwysigrwydd bydysawdol sydd a wnelo nhw â ni (*w83 5/1 13*)

Ai Jehofah yn wir yw'r Arglwydd Frenin? Y cenedloedd yn gwrthod cydnabod hynny gan erlid y rhai sy'n amddiffyn ei awdurdod brenhinol (Act 4:18-30)

Bydd cofio hyn yn ein cynorthwyo i ddygymod

Daw erledigaeth hefyd oherwydd "enw" Iesu, ei safle yn Frenin y Deyrnas sefydledig (Mth 24:9; *it-2 61; w83 1/15 31; w83 10/1 22*)

Hefyd, mae'r cwestiwn a fyddwn ni'n bersonol yn cadw uniondeb dan brawf

Os cadwasom uniondeb am flynyddoedd, mor ddfudd fyddai ildio oherwydd erlid eithafol dros dro

Bydd cofio mai "byr" yw'r prawf yn ein cynorthwyo i ddygymod (2Cor 4:17, 18, *BCL; it-1 724-5; bw 121*)

Yn ystod erledigaeth sylweddolwch y gellir dibynnu ar Dduw am gymorth tu hwnt i'r cyffredin (1Cor 10:13; 2Cor 4:7)

Gallwn fwynhau tangnefedd digyffelyb pan erlidir ni (*w83 5/1 19*)

Cofiwch weddio (Act 4:23-31; Iago 1:5, 6)

Cofiwch fod Duw yn caniatáu'r fath ddiodefaint er ein lles sylfaenol ni (*bw 115-39*)

Gall fod yn fath ar hyfforddiant (*it-1 629; w87 6/15 30-1*)

Paratowch 'nawr i ddygymod ag unrhyw ffurf ar erlid (*w85 11/15 11-15; w83 5/1 18*)

Mae angen inni fanteisio ar ddarpariaethau sy'n ein cryfhau yn ysbrydol

Meddylwch am ddarpariaethau o'r fath yn nhermau paratoi i ymwroli dan faich erledigaeth

Bydd darllen y Beibl yn ein gwneud yn gyfarwydd ag enghreifftiau o sut goddefodd ein brodyr yn y gorffennol

Bydd myfyrio ar hanesion fel hyn yn ein helpu i wrthsefyll pwysau 'nawr ac i oddef treialon i ddod

Ymddisgyblwch i gael profiad ym mhob agwedd ar y weinidogaeth

Bydd hyn yn ein helpu i barhau i bregethu pan ddaw gwaharddiad (*w85 11/15 12-13*)

Magwch gyfathrebu rheolaidd gyda Duw drwy weddio'n feunyddiol (1In 5:14, 15)

Peidiwch â chilio'n ôl (Heb 10:39)

Cadwch eich golwg ar y gobaith sydd o'n blaen (Heb 12:2, 3; *it-2 610*)

Rhaid wrth ymdrech unedig i'n cryfhau ni 'nawr a'n paratoi ar gyfer beth bynnag ddaw

'Does dim rhaid inni fyw mewn ofn (Mth 6:34)

Mae Duw yn ein cefnogi os cadwn yn agos ato

Fe all ac fe wna ein helpu i ddygymod (2Tim 4:17; 1Pedr 5:10)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)